



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

GIG 111 Cymru

**Darparu Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg
2026 - 2031**

Gwasanaeth GIG 111 Cymru
Cynllun Darparu Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg
(2026 - 2031)

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Safon 110
3. Adolygiad o gynllun 2019 - 2024
4. Elfennau allweddol y cynllun 2026 - 2031
5. Cynllun Darparu Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg 2026 - 2031

1. Crynodeb Gweithredol

Mae GIG 111 Cymru yn darparu gwasanaeth ar draws holl ranbarthau Cymru, gan barchu'r cymunedau amrywiol y mae'n ei wasanaethu. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod gwerth cynnig a darparu gwasanaethau'n weithredol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn cydnabod y manteision sylweddol o sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae'r ymrwymiad hwn nid yn unig yn cefnogi cynhwysiant ac ymgysylltiad diwylliannol, ond hefyd yn gwella'r profiad cyffredinol i'n cleifion a'u teuluoedd. Pan fydd sefyllfaoedd meddygol annisgwyl yn codi, mae'r gwasanaeth yn cydnabod effaith gadarnhaol galluogi galwyr i gyfathrebu yn eu hiaith a ffefrir.

Drwy gefnogi ac ehangu ein darpariaeth Gymraeg yn weithredol, rydym yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn parhau i fod yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion ein holl ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn yn sylfaenol er mwyn darparu gofal tosturiol ac effeithiol. Mae'r Gymraeg yn elfen hanfodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gwasanaeth GIG 111 Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran y Gymraeg, fodd bynnag, mae'n cydnabod bod hyn wedi bod yn heriol ar adegau.

Er mwyn bodloni'r gofynion statudol hyn, bydd angen i GIG 111 Cymru sicrhau bod unrhyw ofynion a nodwyd ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu cydnabod a'u rhoi ar waith. Cyflawnir hyn drwy gynnal adolygiad manwl o lwyddiannau a heriau'r cynllun pum mlynedd blaenorol, a fydd wedyn yn cefnogi datblygiad y cynllun nesaf.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu ei bod yn berthnasol nodi bod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn anodd, ac mae'r sefyllfa'n parhau felly. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd pob gwasanaeth a ddarperir gan GIG Cymru dan bwysau aruthrol, a rhoddwyd ffocws llawn ar sicrhau bod anghenion clinigol cleifion yn cael eu diwallu. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth, a GIG Cymru yn ei gyfanrwydd, yn parhau i wynebu heriau ariannol a phwysau gweithredol. Ni ellir defnyddio hyn fel cyfiawnhad dros y cynnydd arafach yn ystod y pum mlynedd flaenorol, ond mae'n bwysig nodi'r cyd-destun y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynddo.

2. Safon 110

Fel rhan o'r Safon, gofynnir i'r Ymddiriedolaeth: gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod o bum mlynedd sy'n nodi – a) i ba raddau yr ydym yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; (b) y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gynyddu ein gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; (c) amserlen ar gyfer y camau yr ydym wedi rhoi manylion amdanynt yn (b)

Mae Safon 110 o Safonau'r Gymraeg yn nodi disgwyliad i'r Ymddiriedolaeth gynnig a chynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg yn rhagweithiol pan fo angen neu pan ofynnir am hynny.

Mae'r safon yn nodi disgwyliad clir bod manteision i ddiogelwch cleifion o ddefnyddio ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Yn ogystal, bydd hyn yn gwella ymhellach ddarpariaeth gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ansawdd.

Noder: Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn diffinio ymgynghoriad clinigol fel "rhyngweithio rhwng un neu ragor o unigolion a chorff ynghylch darpariaeth iechyd".

Mae'r cynnig rhagweithiol, a amlinellir yng nghynllun Mwy na geiriau, wrth wraidd yr holl waith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth; mae hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano.

Ein bwriad o ran Safon 110 yw cyhoeddi cynllun bob pum mlynedd sy'n nodi a) pa mor dda y gall y Gwasanaeth gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, b) y camau y bydd yn eu cymryd i wella ei allu i ddarparu ymgynghoriadau yn Gymraeg, ac c) amserlen ar gyfer gweithredu'r camau hyn.

3. Adolygiad o gynllun 2019-2024

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gweld newidiadau a heriau sylweddol sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar Gynllun Ymgynghori Clinigol 2019-2024 ("y Cynllun 2019-2024"). Y ddau brif effaith ganolog fu pandemig COVID-19 a'r newidiadau sylweddol i fodel gwasanaeth GIG 111.

Yn fuan ar ôl i Gynllun 2019-2024 gael ei ddatblygu, dechreuodd pandemig COVID-19, gan ddod ag anghenion digysail a heriau ynghylch diogelwch cleifion a'r gweithlu. Cafodd hyn effaith uniongyrchol rhwng 2020 a 2023 ar y gallu i ateb y nifer enfawr o alwadau yn brydlon. Bu'n rhaid i'r gwasanaeth newid ei fodel gwasanaeth yn sylweddol

– ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen – er mwyn ymateb i'r gofynion hyn o fewn cyfnodau byr iawn yn ystod y pandemig.

Yn ystod cyfnod y Cynllun 2019-2024, ac yn ystod cyfnod y pandemig, newidiodd gwasanaeth GIG 111 Cymru o fod yn Galw Iechyd Cymru, a oedd yn gweithredu gwasanaethau 111 ar gyfer nifer bach o Fyrddau Iechyd yng Nghymru, i fod yn wasanaeth GIG 111 Cymru cenedlaethol llawn ar draws pob un o'r saith Bwrdd Iechyd. Dechreuodd y broses o gyflwyno hyn yn 2017 a chafodd ei chwblhau yn 2021, gan gynnwys cyflwyno'r gwasanaeth 111 Pwyso 2.

Yn ogystal, ers 2024 mae Gwasanaeth GIG 111 Cymru wedi parhau i ehangu ei gynnis, gyda gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu a'u hintegreiddio o fewn y portffolio Gwasanaethau Gofal Integredig yn WAST.

Ym mis Ebrill 2024, gweithredwyd system C3 Anfon gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) newydd o fewn Gwasanaeth GIG 111 Cymru, gan ddisodli'r System Asesu Glinigol (CAS), a gafodd ei datgomisiynu. Roedd hwn yn drawsnewidiad sylweddol a gafodd ei gyflwyno'n llwyddiannus o fewn cyfnod cymharol fyr. Yn yr un modd, cafodd y datblygiad hwn effaith ar berfformiad cyffredinol y gwasanaeth wrth ateb galwadau, gan greu heriau gweithredol am gyfnod.

Cyflwynwyd model clinigol newydd i WAST yn 2025, sef y Rhaglen Drawsnewid Model Clinigol. Mae'r model newydd yn dwyn ynghyd elfennau o wasanaethau 999 a GIG 111 Cymru i weithio fel un gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth Gofal Integredig yn asesu'n glinigol galwyr i 999 neu wasanaeth GIG 111 Cymru, er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cyngor gorau yn cael eu cynnis. Ar hyn o bryd, mae'r model hwn yn parhau i ddatblygu, gyda newidiadau pellach wedi'u cynllunio yn ystod 2026.

Er gwaethaf yr heriau, bu gwelliannau sylweddol yn ein gwasanaethau Cymraeg yng Ngwasanaeth GIG 111 Cymru. Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaethyn nodi'r rhain yn fanwl, fodd bynnag, mae uchafbwyntiau Cynllun 2020-2024 yn cynnwys y canlynol:

Cyflawniadau allweddol

- Monitro'r galw: data ar y galw am wasanaethau yn Gymraeg wedi'i hintegreiddio i ddangosfyrddau a mapiau gwres i wella'r broses o drefnu rhestrau dyletswyddau.
- Gostyngiad yn nifer y cwynion: gostyngodd nifer y cwynion a dderbyniwyd ynghylch gwasanaethau Cymraeg o 2 i 3 y mis (2020) i 2 y flwyddyn (2024/25).
- Ymwybyddiaeth a hyfforddiant: cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant ESR gorfodol yn ystod y cyfnod.

- Ymdrechion recriwtio: ymgyrchoedd wedi'u targedu i gynnal darpariaeth yn Gymraeg, gyda'r llwyddiant mwyaf yng ngogledd Cymru.

Heriau a nodwyd

- Sgiliau clinigwyr: roedd 17% o drinwyr galwadau ac 11% o glinigwyr cofrestredig yn gallu cynnal ymgynghoriadau yn Gymraeg (gwaelodlin 2020).
- Bylchau recriwtio: llwyddiant cyfyngedig wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg y tu allan i ardal gogledd Cymru, er gwaethaf newidiadau i hysbysebion ac ymgyrchoedd.
- Nifer sy'n cwblhau hyfforddiant: cyfranogiad isel o ran hyfforddiant Cymraeg uwch; ni chynhyrchwyd proffil sgiliau cynhwysfawr
- Pwysau allanol: fe wnaeth COVID-19, ehangu gwasanaethau, camau gweithredu diwydiannol, ymosodiad seiber a brigiad o achosion Strep A ddargyfeirio adnoddau.
- Cyflwyno system C3 / CAD newydd ym mis Ebrill 2024
- Mae'r cyfnod rhwng diwedd y cynllun 2019–2024 a dechrau'r cynllun 2026–2031 yn adlewyrchu newidiadau sylweddol o fewn Gwasanaeth GIG 111 Cymru a Gofal Integredig yn ystod 2024/25, gan gynnwys cyflwyno strwythurau sefydliadol newydd, system anfon gyda chymorth cyfrifiadur newydd, a model clinigol newydd.

Effaith/gwelliannau

- Cynhaliodd y gwasanaeth ddarpariaeth Gymraeg ond ni chyflawnodd dwf sylweddol yng ngallu clinigwyr. Gwell profiad i gleifion drwy lai o gwynion a gwell trefniadau rhestr ddyletswyddau ar gyfer staff trin galwadau.
- Datblygu Cynllun Gwella GIG 111 Cymru ar gyfer ateb galwadau yn Gymraeg, a oedd yn cynnwys recriwtio wedi'i dargedu, dadansoddi patrymau galwadau ar benwythnosau, a hyblygrwydd i alwyr ddewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg. Dangosodd canlyniadau'r cynllun gwella a gyflwynwyd yn 2022 fod y perfformiad o ran ateb galwadau yn Gymraeg wedi codi o 18% yn 2022/23 i 45% yn 2023/24, ac mae'r perfformiad wedi aros yn sefydlog ar 45.7% yn 2024/25.

Argymhellion ar gyfer y Cynllun Pum Mlynedd nesaf

- Recriwtio: datblygu strategaethau wedi'u targedu ar gyfer y rhanbarthau sydd â nifer isel o ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.
- Hyfforddiant: cynyddu cyfranogiad mewn sesiynau datblygu iaith uwch a magu hyder.

- Data ac adborth: creu proffiliau staff cynhwysfawr a gwella mecanweithiau adborth cleifion.
- Cynaliadwyedd: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o gynllunio gweithredol a datblygu'r gweithlu.

4. Cynllun Darparu Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg 2026-2031

Cwmpas

Nod y cynllun newydd fydd amlinellu strategaeth pum mlynedd y gellir ei chyflawni ar gyfer Gwasanaeth GIG 111 Cymru ynghylch sut y bydd yn sicrhau parhad a gwelliannau yn ei berfformiad o ran ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Galwyr sy'n cysylltu drwy wasanaeth GIG 111 Cymru. Nid yw pob gwasanaeth 111 yn cael ei ddarparu gan WAST (er enghraifft, y gwasanaeth Iechyd Meddwl 'Pwyso 2' a gwasanaethau y tu allan i oriau'r Byrddau Iechyd). O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, nid oes gofyniad deddfwriaethol ar yr Ymddiriedolaeth i ddarparu cynnig rhagweithiol o'r Gymraeg i alwyr sy'n cysylltu â'r Ymddiriedolaeth drwy'r gwasanaeth 999.
- Staff sy'n darparu gwasanaethau clinigol (clinigwyr) sy'n cael eu cyflogi gan WAST ac sydd wedi'u cofrestru. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys parafeddygon, nyrsys a bydwagedd, meddygon a fferyllwyr.
- Yr holl alwadau i mewn i wasanaeth GIG 111 Cymru. Bydd hyn yn cynnwys trin galwadau, gwybodaeth iechyd a galwadau deintyddol.
- Bydd y cynllun pum mlynedd nesaf yn cynnal ffocws cryf ar drinwyr galwadau GIG 111 Cymru, gan wreiddio clinigwyr 111/RICS a'r cynnig digidol 111 hefyd. O fewn ardal darparu gwasanaeth RICS, caiff galwadau 111 a 999 eu rheoli'n ddi-dor drwy un system. Y bwriad yw cynnwys maes gwasanaeth RICS yn dilyn yr adolygiad canol cynllun ar ddiwedd blwyddyn 3, gan gadarnhau ymrwymiad clir i wella'r ddarpariaeth Gymraeg a'r modd y caiff ei chyflwyno ymhellach.
- Archwilio cyfleoedd i wella cynnig digidol GIG 111 Cymru.

Elfennau allweddol y Cynllun 2026 – 2031

Mae elfen allweddol y cynllun newydd yn cynnwys y canlynol:

Y Gweithlu

- Hyfforddiant a datblygu
- Cynllunio'r gweithlu
- Recriwtio a chadw staff
- Adolygiad o sgiliau Cymraeg gweithlu'r gwasanaeth (llafar ac ysgrifenedig)

Proses y gwasanaeth ac arloesiadau digidol

- Adolygiad o'r broses a'r llif galwadau/cleifion presennol er mwyn gwella ymhellach ymgynghoriadau yn Gymraeg.
- Pwyntiau adolygu ar gyfer rhestrau dyletswyddau a sicrwydd
- Arloesiadau a gwelliannau digidol
- Gwelliannau i systemau (CAD)
- Adrodd ar ddata ar gyfer ymgynghoriadau yn Gymraeg
- Ailddatblygu Gwiriwr Symptomau ar-lein GIG 111 Cymru a'i gyhoeddi yn Gymraeg.
- Cynorthwydd deallusrwydd artiffisial GIG 111 Cymru, Albot, sydd ar gael yn Gymraeg.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

- Cyfathrebu'r cynllun terfynol i'r holl randdeiliaid
- Cyfathrebu'r cynllun i'r holl staff yng Ngwasanaeth GIG 111 Cymru.
- Cydweithio â Thîm Profiadau Pobl yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu mentrau perthnasol a chasglu adborth gan gleifion ynghylch cael mynediad at Wasanaeth GIG 111 Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Monitro a gwerthuso

- Cynllun archwilio (dadansoddi ansawdd ymgynghoriadau a gynhelir yn Gymraeg).
- Datblygu cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer y cynllun pum mlynedd, gan gynnwys cerrig milltir allweddol ac adroddiadau ansawdd mewnol (yr Ymddiriedolaeth) ac allanol ar y cynnydd.
- Cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynnydd y cynllun.
- Ar ddiwedd blwyddyn 3, cynhelir gwerthusiad interim.
- Bydd gwasanaeth GIG 111 Cymru yn adrodd i Grŵp Cynghori'r Gymraeg ar y cynnydd wrth weithredu'r cynllun yn ystod cyfnod y cynllun pum mlynedd. Bydd trefniadau uwchgyfeirio ar waith pan fydd angen addasu'r cynllun Adroddir ar gynydd drwy Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar Safonau'r Gymraeg.

1. Y Gweithlu

Amcan	Nodau ac amcanion	Dangosydd perfformiad	Wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Cyfrifoldeb
W1. Adolygiad o Sgiliau Cymraeg y Gweithlu	Sefydlu gwaelodlin ar gyfer sgiliau Cymraeg holl staff trin galwadau.	Mesur 1: Canran/nifer y staff ym mhob rôl sy'n darparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. Mesur 2: Canran y staff sydd â sgiliau Cymraeg sylfaenol, lefel 2 neu lefel 3.	Blwyddyn 1	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru
W2. Recriwtio a Chadw	Sefydlu mentrau neu gynlluniau recriwtio sy'n canolbwyntio ar recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer yr holl staff trin galwadau.	Mesur 3: Canran/nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n llwyddo yn ystod camau recriwtio. Mesur 4: Canran/nifer y staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gadael gwasanaeth GIG 111 Cymru.	Blwyddyn 2	Gwasanaethau Pobl Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru
W3. Cefnogaeth a hyfforddiant	Buddsoddi mewn adnoddau i wella sgiliau clinigwyr, er mwyn datblygu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau yn Gymraeg.	Mesur 5: Mwy o gyfleoedd i staff gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg. Mesur 6: Nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant datblygu sgiliau Cymraeg.	Blwyddyn 2	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru

2. Proses y gwasanaeth ac arloesiadau digidol

Amcan	Nodau ac amcanion	Mesur llwyddiant	Wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Cyfrifoldeb
P1. Proses weithredol	Adolygiad cyfnodol o'r broses weithredol i sicrhau cefnogaeth i'r cynnig Gymraeg. Datblygu cynlluniau ar gyfer mentrau addasol ac arloesol pan fo angen.	Mesur 7: Adolygu llwyddiant mesurau perfformiad y Gymraeg mewn perthynas â phrosesau.	Blwyddyn 2	Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru
P2. Trefnu rhestrau dyletswyddau	Adolygu'r galw am y Gymraeg yn erbyn proffil y gweithlu a'r rhestrau dyletswyddau. Yn gysylltiedig â cham gweithredu W2.	Mesur 8: Adolygu llwyddiant mesurau perfformiad y Gymraeg mewn perthynas â chapasiti / galw.	Blwyddyn 2	Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru
P3. Gwelliannau trwy arloesiadau digidol	Adolygiad o'r gofynion i wella'r ddarpariaeth Gymraeg drwy ddatrysiadau digidol newydd ac arloesol.	Mesur 9: Adolygu llwyddiant metrigau perfformiad y Gymraeg mewn perthynas â chyflwyno mentrau newydd a gwelliannau digidol. Mesur 10: Datblygu'r system CAD C3 i wella'r broses o ateb galwadau yn Gymraeg a pherfformiad y gwasanaeth. Mesur 11: Datblygu'r gwirwyr symptomau newydd ar wefan GIG 111 Cymru.	Blwyddyn 2	Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru Cyfarwyddwr Clinigol Cynorthwyol ar gyfer Gofal Clinigol o Bell Rheolwr Rhaglen TGCh (Uwch-berchennog Risg y Pen Blaen Digidol)

		Mesur 12: Adolygu'r defnydd o'r swyddogaeth deallusrwydd artifisial newydd, Albot, ar wefan GIG 111 Cymru.		
P4. Gwybodeg y Gymraeg	Sicrhau data perfformiad cadarn ar gyfer y Gymraeg.	Mesur 13: Casglu data gwybodeg dilyn am y Gymraeg	Blwyddyn 1	Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru

3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

Amcan	Nodau ac amcanion	Mesur llwyddiant	Wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Cyfrifoldeb
C1. Cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol ynghylch y cynllun pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg.	Sicrhau bod cynllun pum mlynedd y gwasanaeth yn cael ei gyfleu i'r holl rhanddeiliaid.	Mesur 14: Adolygu ac adborth ar y cynllun gan rhanddeiliaid allweddol.	Blwyddyn 1	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
C2. Ymgysylltu â'r cyhoedd a phrofiadau pobl	Cydweithio â'r Tîm Profiad Pobl i ddatblygu mentrau perthnasol a chasglu adborth gan bobl ynghylch mynediad at Wasanaeth GIG 111 Cymru a'u profiad ohono drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mesur 15: Adolygu adborth, cwynion, canmolïaethau a straeon cleifion mewn perthynas â'r Gymraeg yng Ngwasanaeth GIG 111 Cymru. Cryfhau'r Rhwydwaith Llais y Claf i gefnogi cyfranogiad cymunedol ystyrllon ac effeithiol wrth ddatblygu newidiadau arfaethedig i wasanaethau,	Blwyddyn 2	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

		gan sicrhau cynnydd yn nifer yr aelodau sy'n cynrychioli'r Gymraeg ar y rhwydwaith.		
--	--	---	--	--

4. Monitro a gwerthuso

Amcan	Nodau ac Amcanion	Mesur llwyddiant	Wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Cyfrifoldeb
M1. Monitro rheolaidd ar gyflenwi gwasanaethau a pherfformiad mewn perthynas â'r Gymraeg.	Sicrhau bod perfformiad y Gymraeg yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd, gyda chymau gweithredu penodol yn cael eu rhoi ar waith pan fo angen i wella perfformiad a chyflenwi gwasanaethau.	Mesur 16: Adolygiad rheolaidd o berfformiad yn ymwneud â'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allweddol.	Blwyddyn 1	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru
M2. Adrodd ar sicrwydd (mewnol/allanol) y cynllun.	Datblygu strategaethau i fonitro cynnydd y cynllun. Adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau allweddol y gellir eu cyflawni, yn fewnol ac yn allanol.	Mesur 17: Gwerthuso cynnydd y cynllun drwy Adroddiad Blyneddol Safonau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth	Blwyddyn 1	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Rheolwyr Gwasanaeth GIG 111 Cymru